| Rhannu data â sefydliadau eraill? | ☐ | ☒ |
| Allforio data y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd neu fewnforio data o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig? | ☐ | ☒ |
| Defnyddio cyfeiriadau, codau post, ffacsys, e-byst neu rifau ffôn personol? | ☐ | ☒ |
| Cyhoeddi data a allai ganiatáu adnabod unigolion? | ☐ | ☒ |
| Defnyddio system rheoli data? | ☐ | ☒ |
| Archifo data? | ☒ | ☐ |
| Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn, gan egluro sut y caiff hyn ei wneud yn unol â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a’r Ddeddf Diogelu Data (a/neu unrhyw drefn ryngwladol gyfatebol): | | |
| Holl ddata yn anhysbys ac yn cael ei gadw mewn cwpwrdd dan glo.<br>Dilyn rheolau GDPR (2018) https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/ ynghyd a chanllawiau rheoli data ymchwil y Brifysgol (2019) https://uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/<br>Ni rennir data craidd anhysbys ond rhennir dadansoddiad a/neu grynodeb o ddata gyda thiwtoriaid y Brifysgol.<br>*(dylai’r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| Rhestrwch bawb fydd â hawl i weld y data a gynhyrchir trwy’r gweithgarwch ymchwil: | | |
| Ymchwilydd – Ffion Margetson<br>Partner Ymchwil – Lauren Cole<br>Arweinydd Modiwl – Catherine Morgan<br>*(dylai’r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |

| | | |
|---|---|---|
| Rhestrwch bawb fydd â rheolaeth o'r data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil ac a fydd yn gweithredu fel ceidwad y data: | | |
| Ymchwilydd – Ffion Margetson<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| Rhowch fanylion y trefniadau storio data, yn cynnwys y mesurau diogelwch sydd yn eu lle i ddiogelu'r data, ble caiff y data eu storio, am ba hyd, ac ym mha ffurf. A fydd y data'n cael eu harchifo – os felly, sut ac os na, pam. | | |
| Data electorig – Storio ar weinydd diogel y Brifysgol, yn unol a Gweithdrefn Rheoli Cofnodion y Brifysgol a'r Polisi Rheoli Data Ymchwil (2019) https://uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/<br><br>Dilyn gweithdrefnau rheoli'r brifysgol a pholisi rheoli data.<br>Storio ar gofbin gyda chyfrinair.<br><br>Data papur – ffurflenni caniatad – storio yn ddiogel mewn cwpwrdd dan glo.<br>Creu copi wrth gefn a'i storio ar OneDrive (weinydd diogel) y Brifysgol.<br>Archifo'r data ar ol ei ddefnyddio.<br>Dinistrio'r data yn ol rheoliadau GDPR a pholisiau'r brifysgol, wedi i ni gael canlyniad.<br>https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| Nodwch a fydd eich data'n cael ei storio yng Nghadwrfa Data Ymchwil PCYDDS (gweler https://researchdata.uwtsd.ac.uk/ ). Os felly, eglurwch. *(Yn fwyaf perthnasol i staff academaidd)* | | |
| Na fydd.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| Cadarnhewch eich bod wedi darllen cyfarwyddyd PCYDDS ar reoli data (gweler https://www.uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/) | **YDW** | ☒ |
| | **NAC YDW** | ☐ |
| Cadarnhewch eich bod yn ymwybodol bod angen i chi gadw'r holl ddata tan ar ôl i'ch ymchwil ddod i ben neu ddiwedd eich cyllid. | **YDW** | ☒ |
| | **NAC YDW** | ☐ |

**ADRAN K: Datganiad**

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chyflwyno yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi ceisio nodi unrhyw risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ymchwil ac rwyf yn cydnabod f'ymrwymiadau innau a hawliau'r cyfranogwyr.<br><br>Wrth gyflwyno'r cais hwn cadarnhaf drwy hyn fy mod yn ymrwymo i sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan:. https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/ | | |
| **Llofnod yr Ymgeisydd:** |  | **Dyddiad:**<br><br>17/12/2019 |

***Ar gyfer Cyflwyniadau MYFYRWYR:***

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr: | | **Dyddiad:** |
| Llofnod: | | |

***Ar gyfer Cyflwyniadau STAFF:***

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Academaidd/ Deon Cynorthwyol: | | **Dyddiad:** |
| Llofnod: | | |

**Rhestr Wirio:** Cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn unol â'r canllawiau ac wedi atodi unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol:

| | |
|---|---|
| ☒ | Rwyf wedi darllen y nodiadau cyfarwyddyd a ddarperir cyn cwblhau'r ffurflen. |
| ☒ | Rwyf wedi cwblhau **HOLL ADRANNAU PERTHNASOL** y ffurflen yn llawn. |
| ☒ | Cadarnhaf fod y gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor. |
| ☐ | Rwyf wedi atodi copi o'r gymeradwyaeth derfynol/interim gan sefydliad allanol (**lle bo'n briodol**). |
| ☐ | Rwyf wedi atodi asesiad risg llawn (a HEB gwblhau Adran H y ffurflen hon) (lle bo'n briodol) *TICIWCH HWN DIM OND OS YDYCH WEDI **ATODI ASESIAD RISG LLAWN*** |
| ☒ | Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol. |
| ☒ | Cyn cychwyn casglu data rwy'n deall ei bod yn rhaid i'r holl ddogfennau sydd wedi'u hanelu at ymatebwyr (yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsynio, holiaduron, rhaglenni cyfweliadau ac ati) gael eu cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr, y tiwtor modwl neu'r Cyfarwyddwr Academaidd. |
| ☒ | Rwyf wedi dileu'r nodiadau cyfarwyddyd cyn cyflwyno'r ffurflen PG2 i'w hystyried. |

**4) Taflen Brookfield (1998 & 2005).**

| | |
|---|---|
| Hunangofiannol | Sut yr oeddwn yn meddwl aeth y wers?<br><br>Credaf yn glir roedd y wers yn un llwyddiannus. Roedd y gweithgareddau a chynlluniwyd yn briodol ar gyfer y wers ac roedd y plant wedi mwynhau pob un ohonynt. Roedd pob plentyn wedi gweithio yn arbennig o dda yn ystod y wers ac yr oedd yn amlwg yr oedden nhw wedi datblygu dealltwriaeth ar aml-ddiwylliannedd. Roedd pob un plentyn yn barod i ateb cwestiynau ar ddiwedd y wers nad oedden nhw yn gwybod ar ddechrau'r wers.<br><br>Beth oedd yn llwyddiannus?<br><br>Y peth mwyaf llwyddiannus dwi'n meddwl yw'r dewis o adnoddau a gweithgareddau. Gan fod plant yn mwynhau gweithgareddau ymarferol, roeddwn wedi penderfynu cynnal y rhain fel ffordd o gynyddu ar ddealltwriaeth. Roedd pob plentyn eisiau cymryd rhan yn y dasg ffocws ac felly yr oedd llwyddiant i weld yr oedden nhw'n barod i ymgysylltu a'r wers. Roedd y dosbarth wedi mwynhau pob tasg oedd ar gael yn y dosbarth ac yn fodlon trio pob un. O ganlyniad i hyn yr oedden nhw wedi mwynhau yn fawr iawn ac roedd pob un wedi dysgu rhywfaint o'r wers.<br><br>A allwn newid un rhywbeth at y tro nesaf? |

| | |
|---|---|
| | Un peth amlwg mi fyddwn yn newid am y tro nesaf yw defnyddio'r bocs yn y dasg ffocws. Roedd yn dda ar y dechrau fel bod y plant yn gallu dyfalu beth oedd yn y bocs gan deimlo, ond yr oedd wedi cymryd gormod o amser wrth i bawb teimlo beth oedd yn y bocs. I wella dealltwriaeth y plant ymhellach, byddwn yn creu fwy o dasgau ble mae'n rhaid i'r plant rhoi eu hunan mewn gwahanol sefyllfaoedd e.e. gallwn wedi defnyddio mwy o chwarae rôl yn ystod y wers er mwyn cynnig profiadau go iawn i'r plant. Trwy wneud hyn mi fydd pawb yn ymgymryd mewn tasgau sydd yn ymwneud ag aml-ddiwylliannedd yn sbesiffig. |
| Llygaid y myfyrwyr | Beth y maen nhw wedi ei ddysgu?<br><br>Ffocws y wers oedd addysgu a chynyddu dealltwriaeth y plant o aml-ddiwylliannedd. Roedden ni wedi ymchwilio i bum gwlad yn bennaf (traddodiad, bwyd, gwisg, baner). Doedd dim llawer o ddealltwriaeth gan y plant ar ddechrau'r wers, ond erbyn y diwedd yr oedden nhw'n gallu ateb y cwestiynau. Dysgon nhw ei fod yn bwysig i barchu traddodiadau gwledydd gwahanol a hefyd dysgon nhw eiriau nad oedden nhw'n gwybod yn Gymraeg. Erbyn diwedd y wers roedden nhw yn deall bod gan bob gwlad traddodiadau, gwisgoedd a gwahaniaethau i Gymru.<br><br>Oedden nhw wedi mwynhau'r wers? |

| | |
|---|---|
| | Credaf yn gryf bod y plant wedi mwynhau'r wers oherwydd roedd pob un yn barod i ymgymryd ym mhob tasg a hefyd yn barod i gymryd rhan mewn trafodaeth ar aml-ddiwylliannedd ar ddiwedd y wers. Roedd hyn yn wers anarferol i'r plant gan eu bod yn blasu bwyd ac yn gwneud gweithgaredd na fydden nhw yn gwneud fel arfer.<br>Roedd pob un ohonyn nhw eisiau cynnig ymatebion ar lawr y dosbarth ac eisiau dangos eu gwaith pan orffennon nhw'r tasgau amrywiol eraill e.e. peintio arth koala, didoli'r lluniau.<br>Roedd y plant yn awyddus i gymryd rhan yn y dasg ffocws ac roedd hyn yn amlwg wrth i'r plant gerdded trwy'r drws yn y bore. O ganlyniad i agwedd y plant, credaf yn gryf eu bod nhw i gyd wedi mwynhau yn fawr iawn. |
| Cyfoedion - Partner | Sut aeth y wers?<br><br>O ystyried nad oedd y plant a dealltwriaeth o'r cysyniad aml-ddiwylliannedd fe aeth y wers yn llwyddiannus iawn. Fe gynllunio ni gweithgareddau a oedd yn hygyrch ac yn ennyn diddordeb pawb. Yr oedd y diddordeb yma yn amlwg wrth i bawb ymroi 100% i bob gweithgaredd yn ogystal yn eu hymatebion.<br>Er ni weithiodd pob elfen o'n tasg ffocws, yr oedd y cysyniad yn gadarn ac felly rhaid dweud bod y wers yn un llwyddiannus.<br>Byddwn yn dweud ein bod ni wedi llwyddo i ymateb i'n cwestiwn gan sicrhau bod y disgyblion wedi caffael peth gwybodaeth, ac erbyn diwedd y |

| | |
|---|---|
| | wers yn gallu enwi'r gwledydd ynghyd a'r bwydydd, traddodiadau a gwisgoedd oedd yn perthyn iddynt.<br><br>A oedd yn llwyddiannus? A oedd y plant wedi ymateb yn dda?<br><br>Yn sicr yr oedd y plant wedi ymateb yn bositif ac yn sensitif i'r pwnc dan sylw. Yr oedd y ffaith bod gennym dasg ffocws ymarferol, gweledol wedi atynnu sylw yn syth ac wedi ennyn diddordeb yr holl ddosbarth. Yr oedd pawb yn ysu i fod yn rhan o'r grŵp ffocws. Dangosodd parodrwydd ac ymatebion y plant eu bod nhw wedi mwynhau dysgu am y pwnc dan sylw, ac wedi cael y cyfle i archwilio pethau newydd mewn modd creadigol. Yn sicr gwers lwyddiannus y byddaf yn bendant yn edrych i archwilio'n bellach gyda'r cynradd yn y dyfodol.<br><br>Beth allwn newid am y tro nesaf yr ydym yn dysgu'r wers?<br><br>Byddaf yn cytuno gyda fy mhartner a dweud bod eisiau cael gwared a'r bocs. Yr oedd wedi creu eithaf tipyn o ffwdan yn ystod y dasg ac felly wedi arafu'r broses ac atynnu sylw rhai o'r plant. Yr oedd hyn efallai wedi tynnu oddi ar ymatebion gan fod y plant yn diflasu erbyn diwedd y dasg. Wrth ail-gynnal yr ymchwil gyda fy nosbarth yfory, efallai y bydd yn syniad i leihau ar nifer y gwrthrychau/bwyd hefyd gan fod ein sesiynau ni'n fyrrach a byddwn yn cylchdroi 4 grŵp o fewn yr awr. |

| | |
|---|---|
| | Bydd llai o eitemau/bwyd hefyd, gobeithio, yn sicrhau sylw ac ymateb gan bawb trwy gydol y dasg. |
| Llenyddiaeth | Gwelir yr aseiniad am lenyddiaeth bwrpasol. |

**5) Taflen Brookfield (1998 & 2005).**

| | |
|---|---|
| Hunangofiannol | Sut yr oeddwn yn meddwl aeth y wers?<br><br>O ystyried nad oedd y plant a dealltwriaeth o'r cysyniad aml-ddiwylliannedd fe aeth y wers yn llwyddiannus iawn. Fe gynllunio ni gweithgareddau a oedd yn hygyrch ac yn ennyn diddordeb pawb. Yr oedd y diddordeb yma yn amlwg wrth i bawb ymroi 100% i bob gweithgaredd yn ogystal yn eu hymatebion.<br><br>Beth oedd yn llwyddiannus?<br><br>Yr oedd mwynhad pob plentyn a'r ffaith hefyd eu bod nhw'n barod i gymryd rhan a chynnig ymatebion ac eisiau dysgu yn adlewyrchiad teilwng o lwyddiant y wers.<br>Yr oedd y ffaith bod LSA hefyd yn cyd-weithio gyda grŵp wrth ddidoli yn golygu bod rhediad y wers llawer well, a bod pawb wedi cwblhau'r hyn a oedd dan sylw.<br><br>A allwn newid un rhywbeth at y tro nesaf?<br><br>Petawn ni'n ail-gynnal yr ymchwil i'r dyfodol efallai gallwn gael amrywiaeth |

| | |
|---|---|
| | well o dasgau. Yr oedd gennym dasg ffocws a oedd yn ymwneud a bwyd y gwahanol wledydd. Efallai gallwn wneud gwell ddefnydd o’r ardaloedd yn y dosbarth e.e. ardal chwarae rol, gyda’r plant yn defnyddio’r gwahanol wisgoedd o’r gwahanol wledydd e.e. beret neu’r wisg draddodiadol Gymreig. Trwy wneud hynny bydd mwy o bwyslais ar yr elfen o aml-ddiwylliannedd yn ystod pob un o’r gweithgareddau ac felly bydd y cysyniad yn gadarn ac yn cael ei atgyfnerthu i’r plant. |
| Llygaid y myfyrwyr | Beth y maen nhw wedi ei ddysgu?<br><br>Dysgodd y plant am y pum gwahanol wlad dan sylw gan archwilio ‘r bwydydd gwisgoedd a thraddodiadau gwanhaol a oedd yn deillio ohonynt. Erbyn diwedd y wers yr oedd y plant yn gallu adnabod y baneri gwahanol, ynghyd a’u henwi nhw’n Gymreig gan yntau enwi’r eitemau gwahanol a oedd yn gysylltiedig gyda’r gwledydd. Deallon nhw nad oedd popeth bellach yn dod o Gymru a bod gan wledydd rhyfeddodau eu hunain i’w gynnig. Gwelon nhw ei fod yn bwysig i ystyried a pharchu’r gwahaniaethau yma a bod aml-ddiwylliant yn rhywbeth i ddathlu a mwynhau ag eraill.<br><br>Oedden nhw wedi mwynhau’r wers?<br><br>O’r ffordd yr oedd y plant wedi ymgymryd â’r gweithgareddau'r yn sicr eu bod nhw mwynhau. Yr oedd aml-ddiwylliannedd yn bwnc nad oedden |

| | |
|---|---|
| | nhw’n gwybod llawer yn ei gylch ond serch hynny yr oedden nhw gyd wedi ymroi yn llwyr er mwyn dysgu mwy am y pwnc newydd. Roedd cynnwrf a pharodrwydd y plant yn ystod y dasg ffocws, wrth iddyn nhw drio’r bwydydd amrywiol, newydd yntau’n adlewyrchiad o’u mwynhad. |
| Cyfoedion – Partner | Sut aeth y wers?<br><br>Yn fy marn I, aeth y wers yn dda iawn. Er dim ond pedwar a pum mlwydd oed ydyn nhw, ymgysyllton nhw yn arbennig i bob gweithgaredd a gosodwyd. Roedd pob un plenty wedi cael tro yn gwneud y dasg ffocws ac wedi mwynhau yn fawr iawn. Rydw I’n meddwl fod gwneud gweithgareddau ymarferol yn fuddiol iawn oherwydd maen nhw’n fwy tueddol o gymryd rhan sy’n arwain at fwynhad a dysgu.<br>O ganlyniad i’r wers flaenorol gyda blwyddyn 1, redden ni wedi newid y defnydd o’r bocs a weithiodd hyn yn well gan ein bod ni dim ond wedi rhoi’r bwyd ar y plant.<br>Erbyn diwedd y wers, roedd y plant yn gallu ateb cwestiynau nad oedden nhw yn gwybod ar ddechrau’r wers, felly cytunaf yn llwyr ei fod yn wers lwyddiannus.<br>A oedd yn llwyddiannus? A oedd y plant wedi ymateb yn dda?<br><br>Credaf yn gryf bod y wers yn llwyddiant gan fod y plant wedi dysgu rhywbeth ohoni. Nid dim ond y plant o dan sylw ond roedd pob plenty eisiau |

| | |
|---|---|
| | rhoi cynnig ar ateb cwestiynau erbyn diwedd y wers. Mi oedd y plant wedi ymateb yn wych yn ystod y wers ac yn dangos cynnydd yn eu dealltwriaeth o'r thema dan sylw. Roeddwn yn gallu gweld o'r man cychwyn, y plant yn dod i mewn i'r dosbarth, hyd ddiwedd y wers, roedd pob plentyn wedi rhoi 100% ymdrech i mewn i bob tasg a gosodwyd ac redden nhw wedi mwynhau pob un.<br>Dwi'n meddwl wrth wneud gweithgareddau ymarferol, rydym yn helpu ymrwymiad y plant. Roedd pob un ohonynt yn barod i drio pob tasg oedd ar gael ac yn dangos cynydd o ddealltwriaeth wrth iddynt gylchdroi o amgylch y tasgau amrywiol.<br><br>Beth allwn newid am y tro nesaf yr ydym yn dysgu'r wers?<br><br>Er roedd y wers yn llwyddiannus a redden ni wedi newid ambell i beth o'r wers ddoe, mae'n rhaid cytuno bod y newidiadau yma wedi gweithio i'r derbyn. Wrth son yn flaenorol, dim ond pedwar a phump ydy'r plant yma felly gallwn wneud mwy o weithgareddau trafod i gynyddu dealltwriaeth ym mhellach. Roedd hyn yn anodd y tro yma o ganlyniad i amser y gwersi. Os oedd mwy o amser gyda ni fe allwn ni ddefnyddio llai o wledydd a dyfnhau gwybodaeth y plant am un neu ddau. |
| Llenyddiaeth | Gwelir yr aseiniad am lenyddiaeth bwrpasol. |

**6) Transcript cyfweliad y derbyn.**

Pa fwyd neithoch chi fwynhau orau?

Plentyn N – Pice.

Cyfwelydd – pam ?

Plentyn N – achos mae'n flasus.

Cyflwelydd – plentyn T beth amdanat ti?

Plentyn T – Pitsa.

Cyfwelydd – Pam

Plentyn T – achos mae'n flasus.

Cyfwelydd – Plentyn J, beth amdanat ti ?

Plentyn J – sosej?

Cyfwelydd – y sosej, pam ?

Plentyn J – cuz it tastes nice.

Cyfwelydd – Plentyn A?

Plentyn A – trumpets …

Cyfwelydd – Y beth ?

Plentyn A – crumpets.

Cyflwelydd – Y crumpets? Pam? Why?

Plentyn A – cuz theyre my favourite.

Cyfwelydd – are they? Da iawn ti. Plentyn B, beth amdanat ti?

Plentyn B – I like big hot dogs?

Cyfwelydd – Hot dogs? Y sosej ife?

Plentyn B – Ydy

Cyfwelydd – Pam ?

Plentyn B – Because …. Because I like them.

Cyfwelydd – Ti'n hoffi nhw wyt ti? Da iawn. Pa wrthrych oedd eich fefryn? Y tywod, Y cenin (y leek) neu y Kangarw. Plentyn N?

Plentyn A – Y Kangarw.

Cyfwelydd – Pam ? Sut oedd yn teimlo? How did it feel? Y kangarw? Oedd e'n feddal? Oedd e'n soft?

Plentyn A – Ydy.

Cyfwelydd – Wyt ti'n gwybod o ble mae'r Kangarw yn dod?

Plentyn A – ydy.

Cyfwelydd – Ble? Pa wlad?

Plentyn A – Australia.

Cyfwleydd – Awstralia, da iawn. Plentyn J, beth amdanat ti ?

Plentyn J – uhh, y tywod.

Cyfwelydd – Y tywod? Sut oedd y tywod yn teimlo?

Plentyn J – crunchy.

Cyfwelydd – Oedd e'n wlyb? Wet?

Plentyn J – Ydy.

Cyfwelydd – O ble mae'r tywod yn dod? (dim ymateb gan y plentyn) yr un lle a'r Kangarw.

Plentyn J – Australia.

Cyfwelydd – da iawn ti. Plentyn T.

Plentyn T – y kangarw.

Cyfwelydd – y kangarw? Pam?

Plentyn T – soft.

Cyfwelydd – oedd e'n feddal? Da iawn ti. Plentyn A, which one did you like y Kangarw neu'r tywod (the sand)?

Plentyn A – the sand

Cyfwelydd – Do fe? Fel oedd e'n teimlo?  How did it feel ? Oedd e'n oer? Was it cold? (siglo pen) Na, oedd e'n crunchy fel oedd James yn gweud? (siglo pen) oedd e'n galed? Was it hard or soft?

Plentyn A – soft. Soft and fluffy.

Cyfwelydd – Soft and fluffy?

Plentyn B – Soft and fluffy?

Cyfwelydd – Beth oeddet ti'n hoffi? Y Kangarw ife? (nodio pen) Ac o ble mae'r kangarw yn dod ?

Pa wlad? Dechrau gyda A.

Plentyn B – Y jwngl.

Cyfwelydd – Awstralia.

Plentyn B – Awstralia.

Cyfwelydd – da iawn ti. Oce, felly ydy e'n bwysig i ni barchu pobl? Respect people? Barchu pobl? Chi'n credu Plentyn N? Yw e'n bwysig i barchu pobl? Respect people sy'n dod o wahanol gwledydd? Ti'n credu?

Plentyn N – ydy

Cyfwelydd – Pam ? Ti'n gwybod pam? (dim ymateb) Plentyn T yn gallu helpu ? yw e'n bwysig i barchu pobl? To respect pobl? (nodio pen) Pam? Ti'n gallu helpu? (dim ymateb) Wyt ti'n gallu helpu Plentyn J?  Ydy e'n bwysig i barchu pobl? Respect people? Ydy?

Plentyn J: Ydy

Cyfwelydd: Ti'n gwybod pam?

Plentyn J – because … because… ummm …. Because …. I don't know.

Cyfwelydd – you don't know? Oce, umm … ydy hi'n bwysig i fod yn ffrind i bawb?

Pawb – ydy.

Cyfwelydd – ydy? Pam Plentyn N? Pam mae'n bwysig I fod yn ffrind I bawb?

Plentyn N – cuz mae'n da.

Cyfwelydd -cuz mae'n dda? Plentyn T, wyt ti'n credu bod e'n bwysig i fod yn ffrind i bawb ? (Nodio pen) Pam?

Plentyn T – mae'n dda.

Cyfwelydd – Plentyn J, beth amdanat ti ?

Plentyn J – Ydy, mae'n dda.

Cyfwelydd – Beth allet ti neud i fod yn ffrind da te?

Plentyn J – chwarae gyda fe.

Cyfwelydd – chwarae gyda nhw? Plentyn A, ydy e'n bwysig i fod yn ffrind da? Be a good friend? (Nodio pen) Fel wyt ti'n gallu bod yn ffrind da? How can you be a good friend?

Plentyn A – (dim ymateb)

Cyfwelydd – have a think. Fel wyt ti'n gallu bod yn ffrind da? A good friend.

Plentyn A – not use naughty words.

Cyfwelydd – Peidio defnyddio geiriau cas. Ie? Nasty words? No nasty words. Bod yn garedig? Be kind.

Plentyn A – ydy.  No naughty words.

Cyfwelydd – dim naughty words. Dim nasty neu naughty words. Beth amdanat ti Plentyn B? Sut wyt ti'n gallu bod yn ffrind da?

Plentyn B – ffrind i Kimberly.

Cyfwelydd – Ie ond sut? How can you be a friend to everyone?

Plentyn B – I share cacen.

Cyfwelydd – Rhannu pethau.

Plentyn B – ydy.

Cyfwelydd – da iawn. Wyt ti'n falch o fod yn Gymro/Gymraes. Falch o ddod o Gymru. Coming from Wales? Falch? Ie?

Plentyn N – (dim ymateb) ddim yn gwybod.

Cyfwelydd – Wyt ti'n falch dy fod yn dod o Gymru? That you come from Wales? (dim ymateb). Wyt ti plentyn T? Pam?

Plentyn T – ddim yn gwybod.

Cyfwelydd – Mae Cymru'n ffantastig ondyw e?

Plentyn N – I live in Wales.

Cyfwelydd – Ydyn rydyn ni'n byw yng Nghymru. Are you proud to live in Wales? Pam? Pam wyt ti'n falch to come from Wales? Ti'n gallu meddwl am stwff? Beth sydd gyda ni yng Nghymru? Tim rygbi? Wyt ti'n gwylio rygbi? Dwyt ti ddim yn gwylio rygbi. Plentyn J, wyt ti'n gwylio rygbi? (Nodio pen). Mae gyda ni tim rygbi gwych a thim pel-droed. Chi'n gwylio'r pel-droed?

Plentyn J – I play rugby. I only practice.

Cyfwelydd – Beth ydy ni wedi dysgu heddiw? Plentyn N, beth yr ydyn ni wedi dysgu heddiw? Beth ni di dysgu? What have we learnt today? (dim ymateb). Beth ni wedi dysgu? Plentyn T, ti eisiau helpu? Beth ni di dysgu heddiw?

Plentyn T – Ffrainc.

Cyfwelydd – A pha bethau sy'n dod o Ffrainc?

Plentyn T – Baguette.

Cyfwelydd – Baguette. Rhywbeth arall? (siglo pen). Mickey Mouse? Ble mae Mickey Mouse yn byw?

Plentyn T – ddim yn gwybod.

Cyfwelydd – Dechrau gyda D. Rhywun yn gallu helpu Plentyn T?

Plentyn N – Disneyland.

Cyfwelydd – Beth ni wedi dysgu heddiw plentyn J?

Plentyn J – the Eiffel tower.

Cyfwelydd – am y twr Eiffel? A ble mae hwnna? Pa wlad?

Plentyn J – France.

Cyfwelydd – Ffrainc. Da iawn ti. Plentyn A beth yr ydyn ni wedi dysgu heddiw? What have we learnt? (dim ymateb) Pa fwyd wyt ti wedi bwyta?

Plentyn A – Pizza.

Cyfwelydd – Pizza? Oedd y pizza yn flasus? (nodio pen). Plentyn B, beth ni wedi dysgu heddi?

Plentyn B – Sosej.

Cyfwelydd – Sosej? Oedd e’n flasus? (nodio pen). O ba wlad oedd y sosej yn dod? Ti’n cofio? Dechrau gyda A. Plentyn J, ti’n gallu helpu?

Plentyn J: America.

Cyfwelydd – Plentyn N, beth wyt ti wedi dysgu heddiw? Beth wyt ti wedi dysgu? Wyt ti’n gallu cofio? Beth ni wedi neud? Pa wledydd? Mae Plentyn T wedi dweud Ffrainc, pa wledydd eraill ydyn ni wedi dysgu am? Pa wlad ni’n byw ynddi? What country do we live in ? Cymru. Beth sy’n dod o Gymru? Beth ti’n hoffi? Dechrau gyda P.

Plentyn N – Pice.

Cyfwelydd – Beth arall sy’n dod o Gymru blant? Mr ?

Pawb – Urdd.

**7) Cynllun Gwers**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darpar Athro | Lauren Cole/ Ffion Margetson | Dosbarth: | Derbyn a Blwyddyn 1 |
| Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc | Gwybodaeth a dealltwri-aeth o’r byd. | Dyddiad: | 03 – 04 o Chwefror |
| Ffocws Gwers: | Aml- ddiwylliannedd. | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm | Bydd y plant yn gallu:<br>Dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac arda-loedd mewn rhannau eraill o Gymru a gwahanol rannau o’r byd<br>Mynegi eu barn a’u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill<br>Archwilio ac arbrofi mewn i ddiwylliannau gwahanol. | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â:<br>Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd | | | |
| Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)<br>Sbardun gweledol ar y sgrin - (pedwar diben i ddysgwyr – dylanwadu).<br>Egluro nod y wers - (dilyniant mewn dysgu – hyrwyddo) | | | |

| Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy): |
|---|
| Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:<br>Dysgu am wahanol wledydd - dim pob dim yn dod o Gymru.<br>Gallu galw i gof y 5 baner.<br>Gallu i alw i gof eitemau/bwyd/gwrthrychau o’r 5 gwlad. |

| Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu’n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu) | Asesu Dysgu’r Disgyblion<br>Tystiolaeth<br>(Beth sydd gan y dysgwyr i’w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir) |
|---|---|
| Pawb i wrando ar gyfarwyddiadau.<br>Pawb i drio eu gorau glas.<br>Pawb i roi 100% i’r dasg ffocws gan gynnig safbwyntiau teg, nad sydd wedi llywio gan eraill.<br>Pawb i roi 100 % I’r tasgau i gyd er mwyn cynyddu dealltwriaeth o aml-ddiwyllia-nedd. | Hunan-asesu<br>Meddwl, paru, rhannu<br>Pêl - eira<br>Bodau teimladau<br>Gwybod, eisiau, dysgu. |

| **Amser** | **Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol**<br>(Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol) | **Tasgau Disgyblion**<br>(Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref) | **Adnoddau**<br>(Gan gynnwys gofyniad Iechyd a Diogelwch) |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod agoriadol** (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) | Dangos PowerPoint Cymru, Lloegr, Awstralia, Ffrainc ac UDA<br>Gofyn i'r plant enwi'r baneri – drilio geirfa newydd y 5 baner dan sylw.<br>Gofyn yn gyntaf (Beth yw hwn? E.e Big Ben, Twr Eiffel, a.y.b..<br>Gofyn o un o'r 5 gwledydd daw'r eitem/ bwyd? | | |
| **Addysgu a Dysgu Craidd** | Tasg ffocws – bocs teimladau<br>Baguette<br>Croissant<br>Avocado<br>Tea<br>Tywod<br>Koala/kangaroo<br>Het cowboi<br>Pizza<br>Gofyn cwestiynau megis beth wyt ti'n gallu arogli, blasu, a theimlo?<br>Wyt ti'n hoffi'r teimlad? Blas? Arogl?<br>O ba wlad yr wyt ti'n credu daw'r gwrthrych? Cymru, Awstralia, Lloegr, Ffrainc, America?<br>Hoffet ti ymweld â'r wlad?<br><br>Creu Koala allan o blatiau papur | Gwahaniaethu o ran<br>y dasg ffocws – gofyn i'r disgyblion GU:<br><br>O ble y maent yn credu daw'r bwyd/gwrthrych?<br>Ceisio ymgysylltu eitemau eraill i'r un wlad.<br><br>Didoli'r eitemau :<br><br>Os yw'r grwpiau yn gorffen/ grwpiau GU:<br>Gofyn cwestiynau megis ydyn nhw'n hoffi'r bwyd/eitemau<br><br>Beth yw ei hoff gymeriad Disney a pham?<br><br>Beth yw ei hoff fwyd a pham?<br>Ydyn nhw'n gwybod o ble mae'r bwyd yn dod? | Bwyd<br>Bocs<br>Teimladau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Trefnu a didoli'r eitemau gyda’r gwledydd - tasg gyda LSA.<br><br>Tasg lliwio, ffeindio lliwio yn gy-sylltiedig gyda’r 5 wlad. | | |
| **Sesiwn Gloi** | Ydych chi wedi mwynhau dysgu am wle-dydd eraill heddiw?<br>Pam y mae’n bwysig i ddysgu am wle-dydd eraill?<br>Ydy hi’n bwysig i barchu eraill?<br>Bodiau yn yr awyr os ydych chi’n credu eich bod chi’n ffrind i bawb.<br>Pa bethau a oedd yn dod o Gymru/Aw-stralia/ Lloegr/ UDA/ Ffrainc?<br>Beth oedd eich hoff eitem a pham?<br>Pa eitemau eraill sy’n dod o’r gwledydd yma? (Grwpiau Gallu uwch yn unig?) | Asesu dysgu’r disgyblion yn ystod y wers trwy ofyn iddyn nhw alw i gof beth y maen nhw wedi dysgu yn ystod y wers.<br>Gofyn i’r grwpiau gallu uwch ymhelaethu ar hyn, gan gynnig sylwadau ymestynedig ynghylch yr hyn yr ydyn wedi bod yn astudio heddiw.<br>Asesu os yw’r plant wedi datblygu dealltwri-aeth o’r wers o gwbl gan ail-ymweld a’r Power-Point. Gweld a yw’r plant yn gallu galw i gof yr hyn o’r dechrau heb ymyrraeth gen i y tro hwn. | |